# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 18 Mehefin 2025, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

| | |
|---|---|
| Aelodau â phleidlais: | Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; yr Athro Hazel Davey; yr Athro Sarah Davies; yr Athro Iain Donnison; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Ffion Jones; Mr Will Parker, Swyddog Materion Academaidd Undeb Aberystwyth; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; yr Athro Phillipp Schofield; Dr Alistair Shepherd; yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Dr Lucy Trotter. |
| Aelodau heb bleidlais: | Yr Athro Iain Barber; Mr Prysor Davies; Dr Gwion Evans; Dr Thomas Jansen; Dr Rhianedd Jewell; Dr Olaoluwa Olusanya; Dr Anoush Simon; Dr Steve Thompson. |
| Yn gweinyddu: | Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd); Mrs Sue Clarke, Swyddog Datblygu Busnes Cynllunio; yr Athro Jo Hamilton Deon Cyswllt Dysgu ac Addysgu; yr Athro Matt Jarvis yn lle Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Ms Lliwen Jones, Cyfieithydd; Ms Tiff McWilliams, Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr Undeb Aberystwyth; Dr Helen Miles, yn lle'r Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Ms Esperanza Monnier, (Darpar) Swyddog Materion Academaidd Undeb Aberystwyth; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Fyfyrwyr; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; Dr Malte Urban, Deon Cyswllt Dysgu ac Addysgu. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan: yr Athro Andy Evans; yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); yr Athro John Gough; Ms Elain Gwynedd, Llywydd UMCA; yr Athro Mererid Hopwood; Dr Aloysius Igboekwu; Dr Kim Knowles; Dr Alex Mangold; yr Athro Louise Marshall; Dr Julie Mathias; yr Athro Charles Musselwhite; Dr Samuel Raybone; yr Athro Helen Roberts, y Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; Ms Jackie Sayce; yr Athro Catrin Webster; yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

**42. CROESO**

Estynnwyd croeso cynnes i'r rhai a oedd yn bresennol yn lle deiliaid swyddi penodol a oedd wedi anfon eu hymddiheuriadau, i Swyddog Materion Academaidd newydd Undeb Aberystwyth, ac i nifer o gydweithwyr a wahoddwyd i hwyluso'r gweithdy.

**43. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Nododd Dr Gwawr Taylor, yng nghyswllt eitem 49, ei bod wedi'i phenodi i Fwrdd Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Ni chafwyd datganiad arall ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**44. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12/03/2025 (SEN2425-045).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**45. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnod yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2425-046).

**46. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2425-047)

Nodwyd

Roedd dwy ran i'r adroddiad: adroddiad ar y prif bwyntiau a diweddariad ar ddenu myfyrwyr. Rhoes yr Is-Ganghellor grynodeb o'r materion a drafodwyd gan gynnwys y papur gwyn ar fewnfudo, materion y gyllideb a denu myfyrwyr, penodiadau newydd ac ennill statws Siarter Cydraddoldeb Hil. Nodwyd nad oedd yr adroddiad ar gael mewn pryd i'r cyfieithiad Cymraeg gael ei gyhoeddi gyda'r papurau.

**47. Y PWYLLGOR YMCHWIL AC ARLOESI**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi (SEN2425-048)

Nodwyd

Tynnodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi) sylw at yr ystod eang o weithgareddau ymchwil ar draws y sefydliad. Roedd y trefniadau ynghylch cyflwyniadau grant yn cael eu mireinio a byddent yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir ac fe fyddid yn croesawu adborth ar ffyrdd o gefnogi a datblygu gwaith ymchwil. Dros y misoedd nesaf byddai gweithdai yn cael eu cynnal i annog a chefnogi datblygiadau ar ymchwil ryngddisgyblaethol.

## 48. GWEITHDY MATERION ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR

DERBYNIWYD

Gweithdy (SEN2425-049)

Nodwyd

Arweiniodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) weithdy i ystyried amryw opsiynau i fwydo i waith grŵp prosiect y portffolio/cwricwlwm. Rhoddwyd crynodeb o'r egwyddorion yr oedd y gweithgor wedi penderfynu eu harddel, sef, gwella profiad y myfyrwyr, cynnydd y myfyrwyr, canlyniadau cyrsiau a chadw myfyrwyr, yn ogystal â lleihau llwyth gwaith y staff trwy ymdrin â'r baich gweinyddol o ran y cwricwlwm ac asesu. Gan ddefnyddio dull tebyg i'r hyn a ddefnyddiasid wrth ddatblygu'r cynllun strategol, nodwyd nifer o rinweddau cyffredinol i'w meithrin yn ein graddedigion: bod yn barod at y dyfodol, yn barod i fyd gwaith, yn ddigidol-fedrus, yn ddinasyddion sy'n ymwneud â'u byd, yn ymarferwyr arloesol ac yn ymchwilwyr medrus. Roedd gweithdai wedi'u cynnal â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys â grwpiau o fyfyrwyr, a rhoddwyd crynodeb o'r adborth a gafwyd gan y grŵp o fyfyrwyr. Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor yn awyddus i gael adborth aelodau'r Senedd ar amryw awgrymiadau, gan gynnwys cael gwared ar y cyfyngiad ar ailsefyll, codi ffioedd ailsefyll, lleihau a/neu ddileu arholiadau traddodiadol a gynhelir mewn stafell arholi, nifer y cynlluniau Anrhydedd Cyfun, ac adolygu'r polisi estyniadau i asesiadau. Gwahoddwyd aelodau'r Senedd i drafod yr awgrymiadau a rhoi adborth ar y dewisiadau i'w fwydo i'r trafodaethau ynghylch pa gynigion y dylid eu symud ymlaen â hwy yn ystod y misoedd nesaf.

## 49. Y PWYLLGOR ANSAWDD A SAFONAU

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau (SEN2425-050)
2. Datganiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol 2024 (SEN2425-051)
3. Adroddiad Blynyddol Undeb Aber i'r Senedd (SEN2425-052)

NODWYD

4. Datganiad cyhoeddedig Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol ar Brifysgol Aberystwyth, gyda niferoedd yr achosion yn dal i fod yn is na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer y band; er hynny, aeth 1 o bob 2 fyfyriwr a gafodd lythyr Cwblhau Gweithdrefnau ymlaen â'u hachos i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yn 2024 o'u cymharu ag 1 ym mhob 2.8 o fyfyrwyr mewn darparwyr eraill yn yr un band. Roedd hyn yn gyfran uwch na’r blynyddoedd cynt a byddai'r tuedd yn cael ei fonitro yn y dyfodol.

5. Byddai’r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) yn symud ymlaen ar adroddiad blynyddol Undeb Aber, gan drafod â'r swyddogion sabothol newydd a blaenorol dros yr haf ac fe fyddai'n rhoi adroddiad yn ôl i'r Senedd yn yr hydref.

**49.1 DYDDIADAU TYMOR 2027/28**

DERBYNIWYD

Dyddiadau Tymor 2027/28 (SEN2425-053)

NODWYD

Byddai dyddiadau arfaethedig y tymor i 2027/28 yn dilyn patrwm y blynyddoedd cynt.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo Dyddiadau Tymor 2027/28. **[GWEITHREDU:** bydd y Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd) yn eu cyhoeddi]

**49.2 RHEOLIADAU GRADDAU PEIRIANNEG**

DERBYNIWYD

Rheoliadau Graddau Peirianneg (SEN2425-054)

NODWYD

Wrth gyflwyno cynlluniau sy'n gymwys i gael eu hachredu gan yr IET (Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg), roedd angen rheoliadau pwrpasol ar gyfer cynlluniau Peirianneg Drydanol ac Electronig er mwyn bodloni gofynion y rhiant-gorff, sef Cyngor Peirianneg y PSRB (Cyrff Statudol a Rheoleiddiol Proffesiynol), sy’n mynnu bod pob modiwl yn cael ei basio, gan gynnwys Rhan Un, a darpariaeth am elfen o ddigolledu am fethu o drwch blewyn ac esgusodi methiannau. Roedd darpariaeth wedi'i gwneud yn y Rheoliadau ar gyfer y Graddau Cychwynnol Modiwlaidd a Chonfensiynau Arholi unswydd: roedd cynlluniau gradd BEng/MEng wedi'u drafftio, wedi’u seilio mor agos â phosibl ar gonfensiynau safonol y Brifysgol, ynghyd â dyfarniadau cymwysterau ymadael a enwir ar wahân. Byddai angen trafodaethau manwl yn yr adran dan oruchwyliaeth y Gyfadran newydd ar sut y byddai'r rheoliadau yn gweithredu, ac ynghylch y rheolaeth a'r goruchwyliaeth yn y byrddau arholi.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r rheoliadau. **[GWEITHREDU:** bydd y Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd) yn eu cyhoeddi]

**49.3 GRADDAU DOETHURIAETH UWCH**

DERBYNIWYD

Cynnig i dynnu'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Doethuriaeth Uwch yn ôl (SEN2425-055)

NODWYD

Nad oedd y Rheoliadau ar gyfer Graddau Doethuriaeth Uwch wedi'u defnyddio ers amser ac nad oeddynt yn gyfredol bellach. Roedd angen gwaith i adolygu'r rheoliadau, ymgorffori'r Rheol Sefydlog 22 gysylltiedig, ystyried y lleoliad mwyaf priodol i weinyddu'r broses, ac adolygu'r ffi. Doethuriaeth uwch oedd hon a ddyfarnwyd lle'r oedd unigolyn wedi cyhoeddi gwaith a gydnabuwyd yn waith o arwyddocâd rhyngwladol, ac yn gyfraniad sylweddol i gynnydd dysg. Mae'r broses yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno cais i'r Is-Ganghellor, am gynnull Pwyllgor Gradd Doethuriaeth Uwch, ac am asesiad annibynnol gan dri chanolwr allanol. Gan nodi bod Graddau/Cymrodoriaethau er Anrhydedd ar gael fel modd o gydnabod cyflawniadau sylweddol - ac yn sgil trafodaethau â Swyddfa'r Is-Ganghellor, Ysgol y Graddedigion ac yn y Pwyllgor Ansawdd a Safonau - argymhellwyd i'r Senedd fod angen eu tynnu'n ôl neu eu hadolygu'n drylwyr.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo tynnu rheoliadau'r Graddau Doethuriaeth Uwch yn ôl. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd y Senedd)]

**50. PWYLLGOR ADDYSG A PHROFIAD Y MYFYRWYR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (SEN2425-038)

NODWYD

Roedd y canllawiau ar Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (DAC) wedi'u diweddaru a'u datblygu trwy un o weithgorau'r Pwyllgor ac roedd y tudalennau gwe ar DAC wedi'u diweddaru. Cyhoeddwyd datganiad cyffredinol am ddefnyddio DAC ar dudalen we Rheoliadau, Polisïau a Chanllawiau: https://www.aber.ac.uk/cy/is/regulations/da/ ac roedd gwybodaeth ac arweiniad i fyfyrwyr am ddefnyddio DA yn eu hastudiaethau, ac i staff ynghylch eu gwaith dysgu, ymchwil a gweinyddu ar gael yn https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/ai/

**51. MATERION LLYWODRAETHU**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan (SEN2425-057)

NODWYD

1. Yng ngwanwyn 2024, comisiynwyd Good Governance Improvement (GGI) i gynnal adolygiad ar effeithiolrwydd y drefn lywodraethu. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Cyngor a'i is-bwyllgorau, y Weithrediaeth, y Senedd a'r trefniadau sicrwydd academaidd. Roedd yr argymhellion canlynol wedi'u gwneud, ac fe dynnwyd sylw'r Senedd atynt:

   i. Dylai'r brifysgol barhau â'r gwaith sydd ar y gweill i ddiwygio'r strwythur llywodraethu academaidd.

   ii. Roedd angen cryfhau'r cysylltiad rhwng y Cyngor a'r Senedd.

   iii. Roedd angen gwella'r broses ymgynefino ar gyfer aelodau'r Senedd, ac roedd angen ei darparu'n gyson i'r holl aelodau newydd, gan bwysleisio mai'r brifysgol oedd cyfrifoldeb pennaf yr aelodau.

   iv. Dylid adolygu aelodaeth y Senedd, gyda'r nod o gael lai o aelodau, a hwythau'n rhai a fyddai'n cael eu penodi.

   v. Dylid ailedrych ar gylch gorchwyl y Senedd a'i ddatblygu.

2. Mewn trafodaethau â'r Gofrestrfa Academaidd a Gweithrediaeth y Brifysgol, derbyniwyd yr argymhellion mewn egwyddor a chytunwyd y dylid eu rhoi ar waith mewn dau gam. Ar gam 1, roedd gwaith eisoes ar y gweill ar argymhellion i a ii, ac o ran iii, cynigiwyd y dylid cynnig sesiwn i aelodau'r Senedd a fyddai'n debyg i'r sesiwn ymgynefino gychwynnol i aelodau'r Cyngor, a fyddai'n ystyried pob rôl unigol ar y Senedd, yn ogystal â swyddogaeth a chyfrifoldeb y Senedd. Byddai rhaglen ymgynefino ffurfiol yn cael ei chyflwyno o 2025-26.

3. Byddai Cam 2 yn ymdrin ag argymhellion iv a v, a hynny yn ystod 2025-26 trwy gyfres o weithdai a thrafodaethau, a byddai'r cynigion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Senedd a'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2026. Byddai gwybodaeth yn cael ei chasglu o'r sector addysg uwch yng Nghymru a gweddill Prydain er mwyn deall maint a chyfansoddiad eu Seneddau a'u Byrddau Academaidd, a sut mae Aberystwyth yn cymharu â sefydliadau eraill tebyg eu maint.

**52. CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2425-058)

NODWYD

Cynnwys yr adroddiad.

**53. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU.**

DERBYNIWYD

Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2425-059):

1. Y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi
2. Y Pwyllgor Marchnata, Denu a Derbyn Myfyrwyr
3. Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau
4. Pwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr
5. Y Pwyllgor Darpariaeth Gydweithredol
6. Y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg

NODWYD

Yr adroddiadau a ddaeth o'r pwyllgorau.

**54. LLONGYFARCHIADAU A DIOLCHIADAU**

Diolchodd y Senedd i'r Dirprwy Is-Gangellorion Cyfadrannol sy'n gadael – yr Athro Qiang Shen a’r Athro Neil Glasser. Estynnodd ei llongyfarchiadau hefyd i'r Is-Ganghellor, yr Athro Jon Timmis, ynghyd â'r Athro Huw Jones, Dr Changjing Shang a Dr Arwyn Edwards a gafodd eu hethol yn ddiweddar yn Gymrodyr i Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn gydnabyddiaeth o’u rhagoriaeth academaidd.